

Safonau medruswydd

Therapyddion lleferydd ac iaith

Cynnwys

Rhagair 1

Cyflwyniad 3

Safonau medrusrwydd 7

Rhagair

Rydym yn falch o gyflwyno safon medrusrwydd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith.

Y safonau medrusrwydd cyntaf i ni eu cyhoeddi ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith oedd y rhai a oedd ar ein Cofrestr pan agorodd fis Gorffennaf 2003.

Cafodd safonau diwygiedig eu cyhoeddi yn 2007. Rydym ni'n adolygu safonau'n rheolaidd i weld sut y maen nhw'n gweithio ac i weld hefyd a ydyn nhw'n adlewyrchu ymarfer ar hyn o bryd yn y proffesiynau rydym ni'n eu rheoleiddio.

Y safonau newydd, diwygiedig, hyn yw canlyniadau ein hadolygiad diweddaraf o safonau medrusrwydd. O ganlyniad i gyfnod cyntaf yr adolygiad, a hefyd i ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus, rydym wedi adolygu ein safonau cyffredinol sy'n berthnasol i bob un o'r proffesiynau rydym ni'n eu rheoli. Erbyn hyn, mae'r safonau diwygiedig yn cael ei seilio ar 15 o ddatganiadau cyffredinol. Golyga'r strwythur newydd ein bod yn gallu cadw'r un safonau sy'n cael eu rhannu ar draws pob un o'r proffesiynau rydym ni'n eu rheoleiddio a hefyd roi rhagor o hyblygrwydd i ni wrth ddisgrifio'r safonau manwl sy'n benodol i broffesiynau unigol.

Cafwyd mewnbwn gan y cyrff proffesiynol perthnasol a barn yr holl randdeiliaid drwy ymgynghoriad cyhoeddus pellach wrth ddatblygu'r safonau penodol i'r proffesiwn sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Daeth adborth gwerthfawr yn ystod y broses adolygu ac ymgynghori ac rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd eu hamser i'n helpu i ffurfio'r safonau newydd.

Rydym wedi gwneud ychydig o newidiadau i'r safonau'n gyffredinol, yn bennaf i adlewyrchu datblygiadau mewn addysg ac ymarfer, i egluro ein bwriadau ac i gywiro unrhyw wallau neu hebgoriadau.

Rydym ni hefyd wedi gwneud rhai mân newidiadau i'r cyflwyniad, yn enwedig i egluro'r iaith rydym yn ei defnyddio yn y safonau.

Rydym yn hyderus bod y safonau hyn yn addas ar gyfer eu diben a'u bod yn dangos ymarfer proffesiynol diogel ac effeithiol mewn therapi lleferydd ac iaith.

Daw'r safonau i rym ddydd Llun 6 Ionawr 2014

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn dangos y safonau medrusrwydd. Mae'r safonau'n dangos beth yw ymarfer diogel ac effeithiol yn y proffesiynau rydym ni'n eu rheoleiddio. Y rhain yw'r safonau trothwy rydym ni'n eu hystyried sydd yn angenrheidiol i amddiffyn aelodau'r cyhoedd. Maen nhw'n dangos beth sydd raid i fyfyrwyr ei wybod, ei ddeall a gallu ei wneud i allu ymgeisio i gofrestru gyda ni erbyn cwblhau eu hyfforddiant. Unwaith y byddwch ar ein Cofrestr, bydd yn rhaid i chi gyfarfod y safonau hynny o fedrusrwydd sy'n berthnasol i'r meysydd lle rydych yn gweithio.

Rydym ni hefyd yn disgwyl i chi gadw at ein safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ac at safonau ar gyfer datblygu proffesiynol parhaus. Rydym ni'n cyhoeddi rhain fel dogfennau ar wahân a gallwch eu canfod ar ein gwefan.

Mae'r safonau medrusrwydd yn y ddogfen hon yn cynnwys elfennau cyffredinol, sy'n berthnasol i bawb ar ein cofrestr, a hefyd elfennau penodol sy'n berthnasol i'r rhai sy'n cofrestru ar gyfer un o'r proffesiynau rydym ni'n eu rheoleiddio. Mae'r safonau cyffredinol yn cael eu dangos mewn print **bras**, mae'r safonau penodol yn cael eu dangos mewn print plaen.

Rydym ni wedi rhifo'r safonau er mwyn i chi allu cyfeirio atyn nhw'n hawdd. Nid oes hierarchiaeth i'r safonau hyn, mae pob un yr un mor bwysig wrth ymarfer.

Nodyn ynghylch ein disgwyliadau ni ohonoch chi

Mae'n rhaid i chi gyfarfod â'r holl safonau medrusrwydd i gofrestru gyda ni a chyfarfod hefyd y safonau sy'n berthnasol i gwmpas eich ymarfer er mwyn dal i fod wedi cofrestru gyda ni.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen ac yn deall y ddogfen hon. Os cyfyd amheuaeth ynghylch eich ymarfer, byddwn yn ystyried y safonau hyn (a'n safonau ymarfer, perfformiad a moeseg) wrth benderfynu beth, os unrhyw beth, y dylem ni ei wneud.

Mae'r safonau sydd yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r wybodaeth a'r canllawiau sydd wedi'u cyflwyno gan sefydliadau eraill, megis eich corff proffesiynol neu eich cyflogwr. Rydym ni'n cydnabod rhan amhrisiadwy cyrff proffesiynol wrth ddarparu canllawiau a chynghor ynghylch ymarfer da a bod hynny'n eich helpu i gyfarfod y safonau sydd yn y ddogfen hon.

Cwmpas eich ymarfer

Cwmpas eich ymarfer yw'r maes neu'r meysydd yn eich proffesiwn y mae gennych chi'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i'w hymarfer yn gyfreithlon, yn ddiogel ac yn effeithiol, mewn ffordd sy'n cyfarfod â'n safonau ac nad yw'n beryglus i'r cyhoedd nac i chithau.

Rydym yn cydnabod y bydd cwmpas ymarfer y rhai sydd wedi cofrestru'n newid o bryd i'w gilydd a bod y rhai mwy profiadol yn dod i ganolbwyntio mwy ar rai meysydd ac yn arbenigo mwy na'r rhai sydd newydd gofrestru. Efallai bod hyn oherwydd arbenigo mewn maes penodol neu gyda grŵp penodol o gleientiaid, neu symud i swydd reolaethol, addysg neu ymchwil. Bob tro y byddwch yn adnewyddu eich cofrestrriad gofynnir i chi lofnodi datganiad eich bod yn dal i gyfarfod â'r safonau medrusrwydd sy'n berthnasol i'ch maes ymarfer chi.

Gallai eich maes ymarfer olygu nad ydych chi'n gallu dal i ddangos eich bod yn cyfarfod yr holl safonau sy'n berthnasol i'r cyfan o'ch proffesiwn. Cyn belled â'ch bod yn gwneud yn siŵr eich bod yn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol yn eich dewis faes ymarfer ac nad ydych yn ymarfer yn y meysydd nad ydych yn ddigon medrus i wneud hynny, ni ddylai fod yna unrhyw anhawster. Os byddwch yn dymuno symud y tu allan i'ch maes ymarfer, dylech fod yn sicr eich bod yn gallu gweithio yn gyfreithlon, yn ddiogel ac yn effeithiol. Golyga hyn y dylech ddilyn eich barn bersonol a chael yr hyfforddiant neu'r profiad angenrheidiol cyn symud i faes newydd o ymarfer.

Cyfarfod â'r safonau

Mae'n bwysig eich bod yn cyrraedd ein safonau ac yn gallu ymarfer yn gyfreithlon, yn ddiogel ac yn effeithiol. Fodd bynnag, dydyn ni ddim yn gorchymyn sut y dylech gyfarfod â'n safonau. Fel arfer, mae yna fwy nag un ffordd o gyfarfod pob safon ac gallai'r ffordd yr ydych chi'n cyfarfod ein safonau newid gyda threigl amser oherwydd gwelliannau mewn technoleg neu newid yn eich ymarfer.

Rydym ni'n cael ymholiadau'n aml gan rai sydd wedi cofrestru sy'n bryderus y gallai rhywbeth y gofynnwyd iddyn nhw ei wneud, neu mewn polisi neu'r ffordd y maen nhw'n gweithio olygu na allen nhw gyfarfod ein safonau. Yn aml, maen nhw'n poeni y gallai hynny effeithio ar eu cofrestrriad.

Fel person proffesiynol, mae'n rhaid i chi gymryd penderfyniadau gwybodus, rhesymol, ynghylch eich ymarfer i wneud yn siŵr eich bod yn cyfarfod â'r safonau sy'n berthnasol i chi. Mae hyn yn cynnwys gofyn am gyngor a chefnogaeth gan ddarparwyr addysg, cyflogwyr, cydweithwyr, cyrff proffesiynol, undebau ac eraill i sicrhau bod lles defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei ddiogelu bob amser. Cyn belled ag y gallwch chi wneud hyn ac y gallwch gyfiawnhau eich penderfyniadau os bydd gofyn, mae'n annhebyg iawn na fyddwch yn cyfarfod â'n anghenion.

laith

Rydym ni'n cydnabod bod y rhai sydd wedi cofrestru gyda ni'n gweithio mewn llawer o wahanol ffyrdd sy'n cynnwys ymarfer uniongyrchol, rheoli, addysg, ymchwil a swyddi mewn diwydiant. Rydym ni'n cydnabod y gall y derminoleg a ddefnyddir fod yn fater emosiynol.

Mae'r rhai rydym ni'n eu cofrestru'n gweithio gyda phobl wahanol iawn ac y defnyddio gwahanol dermau i ddisgrifio'r grwpiau sy'n defnyddio, neu sy'n cael eu heffeithio gan, eu gwasanaethau. Mae rhai yn gweithio gyda chleifion, eraill gyda chleientiaid ac eraill gyda defnyddwyr gwasanaeth. Bydd y termau y byddwch yn eu defnyddio yn dibynnu ar sut a ble rydych yn gweithio. Rydym ni wedi defnyddio termau yn y safonau hyn rydyn ni o'r farn sy'n disgrifio orau y grwpiau rydych chi'n gweithio gyda nhw.

Yn y safonau medrusrwydd, rydym ni'n defnyddio ymadroddion megis 'deall', 'gwybod' a 'gallu'. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y safonau'n dal yn berthnasol i rai sydd eisoes wedi cofrestru a'u bod yn dal i allu ymarfer, yn ogystal ag i ddarpar gofrestrwyr sydd heb ddechrau ymarfer ac yn ymgeisio am gofrestrriad am y tro cyntaf.

Gallai'r safonau hyn newid yn y dyfodol

Rydym ni wedi paratoi'r safonau hyn ar ôl trafod gyda'n rhanddeiliaid a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

Byddwn yn dal i wrando ar ein rhanddeiliaid ac i adolygu ein safonau'n barhaus. Felly, efallai y byddwn yn newid rhagor ar ein safonau yn y dyfodol i addasu i'r newidiadau mewn ymarfer.

Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd bob amser i unrhyw newid yn ein safonau drwy, er enghraifft, gyhoeddi rhybuddion ar ein gwefan a rhoi gwybod i gyrrff proffesiynol.

Safonau medrusrwydd

Mae'n rhaid i'r rhai sydd wedi cofrestru fel therapyddion llefeydd ac iaith:

- 1 fod yn gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol o fewn cwrmpawd eu hymarfer**
 - 1.1 wybod cyfyngiadau eu hymarfer a pha bryd i ofyn am gymorth neu gyfeirio at berson proffesiynol arall
 - 1.2 gydnabod bod angen iddyn nhw reoli eu llwyth gwaith a'u hadnoddau eu hunain yn effeithiol a gallu ymarfer yn unol â hynny
- 2 gallu ymarfer o fewn terfynau cyfreithiol a moesegol eu proffesiwn**
 - 2.1 deall bod angen gweithredu er budd gorau defnyddwyr gwasanaeth bob amser
 - 2.2 deall yr hyn y mae'r Cyngor Proffesiynau Gofal ac Iechyd yn ei ofyn ganddyn nhw
 - 2.3 deall bod angen parchu a chynnal hawliau, urddas, gwerthoedd a hunaniaeth defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys eu rhan yn y broses ddiagnostig a therapiwtig ac wrth gynnal iechyd a lles
 - 2.4 cydnabod y dylai perthynasau gyda defnyddwyr gwasanaeth gael eu seilio ar barch ac ymddiriedaeth y naill at y llall ac y dylid cynnal safonau uchel o ofal hyd yn oed mewn sefyllfaoedd o anghydawsedd personol
 - 2.5 wybod am y ddeddfwriaeth bresennol sy'n berthnasol i waith eu proffesiwn
 - 2.6 deall pwysigrwydd, a bod yn gallu cael, caniatâd gwybodus
 - 2.7 gallu ymarfer dyletswydd proffesiynol o ofal
 - 2.8 deall goblygiadau moesegol a chyfreithiol o beidio, a thynnu yn ôl, fwydo a maeth

3 gallu cynnal addasrwydd i ymarfer

- 3.1 deall bod angen cynnal safonau uchel o ymddygiad personol a phroffesiynol
- 3.2 deall pwysigrwydd cynnal eich iechyd eich hunan
- 3.3 deall bod angen diweddarau sgiliau a gwybodaeth a phwysigrwydd dysgu gydol gyrfa

4 gallu ymarfer fel unigolyn proffesiynol a datblygu eich barn broffesiynol eich hunan

- 4.1 gallu asesu sefyllfa broffesiynol, penderfynu ar natur a dwyster y broblem a galw ar yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i ymdrin â'r broblem
- 4.2 gallu cymryd penderfyniadau rhesymegol i gychwyn, dal ati neu orffen triniaeth neu ddefnyddio technegau neu weithdrefnau a chofnodi'r penderfyniadau a'r rhesymau'n briodol
- 4.3 gallu cychwyn datrys problemau ac ymarfer cyfrifoldeb personol
- 4.4 cydnabod eich bod yn gyfrifol yn bersonol am, ac yn gallu cyfiawnhau, eich penderfyniadau
- 4.5 gallu gwneud a derbyn cyfeiriadau priodol
- 4.6 deall pwysigrwydd cymryd rhan mewn hyfforddiant, arolygaeth a mentora

5 bod yn ymwybodol o effeithiau diwylliant, cydraddoldeb ac amrywiaeth ar ymarfer

- 5.1 deall bod gofyn mabwysiadu ymarfer sy'n cyfarfod â gofynion gwahanol grwpiau ac unigolion
- 5.2 deall y gallai ffactorau cymdeithasol, seicolegol a meddygol gyfranu at drafferthion defnyddwyr gwasanaeth wrth gyfathrebu a llyncu

6 gallu ymarfer mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethu

7 deall pwysigrwydd, a gallu cadw, cyfrinachedd

- 7.1 ymwybodol o gyfyngiadau'r cysyniad o gyfrinachedd
- 7.2 deall egwyddor rheoli gwybodaeth ac yn gwybod sut i ddefnyddio gwybodaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn ddiogel ac effeithiol
- 7.3 gallu adnabod ac ymateb yn briodol i sefyllfaoedd ble mae angen rhannu gwybodaeth i ddiogelu defnyddwyr gwasanaeth neu'r cyhoedd ehangach
- 7.4 ymwybodol fod y cysyniadau o gyfrinachedd a chaniatâd gwybodus yn ymestyn i gofnodion enghreifftiol megis ffotograffiaeth, fideo a recordiadau awdio

8 gallu cyfathrebu'n effeithiol

- 8.1 gallu dangos sgiliau llafar ac fel arall yn effeithiol ac yn briodol wrth gyflwyno gwybodaeth, cyngor, cyfarwyddiadau a barn broffesiynol i ddefnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofawr, cydweithwyr ac eraill
- 8.2 gallu cyfathrebu yn Saesneg i safon sy'n cyfateb â lefel 8 System Ryngwladol Profi Iaith Saesneg, heb yr un elfen o dan 7.5¹

Mae'r amod hon yn llymach ar gyfer therapyddion llferydd ac iaith nag ar gyfer pob proffesiwn arall sydd wedi'i gofrestru gyda Chyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), gan fod cyfathrebu yn Saesneg yn sgil proffesiynol craidd (gweler safon 14.20)

- 8.3 deall sut mae sgiliau cyfathrebu'n effeithio ar asesu, a chysylltu gyda, defnyddwyr gwasanaeth a sut y dylid addasu'r modd o gyfathrebu i dalu sylw ac ystyried ffactorau megis oedran, gallu, y gallu i ddysgu a gallu corfforol
- 8.4 gallu dewis, symud rhwng a defnyddio ffurfiau priodol o gyfathrebu ar lafar ac fel arall gyda defnyddwyr gwasanaeth ac eraill

¹ Mae'r System Ryngwladol Profi Iaith Saesneg (IELTS) yn profi cymhwysedd yn yr iaith Saesneg. Mae'n rhaid i ymgeiswyr sydd wedi'u cymhwyso y tu allan i'r DU nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cyrraedd y safon angenrheidiol. Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth.

- 8.5 ymwybodol o nodweddion a chanlyniadau cyfathrebu ar lafar ac fel arall a sut y gallai ffactorau megis oedran, diwylliant, ethnigrwydd, rhyw, statws cymdeithasol-economaidd a chredoau ysbrydol neu grefyddol effeithio ar hynny
- 8.6 deall bod angen darparu'r wybodaeth angenrheidiol i ddefnyddwyr gwasanaeth neu bobl sy'n gweithredu ar eu rhan, mewn ffyrdd hawdd ei ddeall i'w galluogi i gymryd penderfyniadau gwybodus.
- 8.7 deall bod angen cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth gyda'u hanghenion cyfathrebu drwy ddefnyddio cyfieithydd priodol, yn ôl y gofyn.
- 8.8 sylweddoli bod angen defnyddio sgiliau rhyngpersonol i annog defnyddwyr gwasanaeth i gyfranogi'n briodol

9 gallu gweithio'n briodol gydag eraill

- 9.1 gallu gweithio, ble bo'n briodol, mewn partneriaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr, pobl broffesiynol eraill, staff cefnogi ac eraill
- 9.2 deall bod angen, fel ymarferydd unigol ac ar y cyd fel aelod o dîm, adeiladu a chynnal perthynasau proffesiynol
- 9.3 deall bod angen gweithio mewn partneriaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr wrth gynllunio a gwerthuso diagnosis, triniaethau ac ymryiadau er mwyn cyfarfod â'u hanghenion a nodau
- 9.4 gallu cyfrannu'n effeithiol at waith sy'n cael ei wneud fel rhan o dîm aml ddisgyblaeth
- 9.5 deall rôl y therapydd llefaredd ac iaith wrth gymryd cyfrifoldeb dros arwain ar gyfathrebu lleferydd ac iaith a llyncu mewn fforwm aml broffesiwn
- 9.6 cydnabod bod yr angen i weithio gydag eraill yn cynnwys pobl broffesiynol ieuchyd, gofal cymdeithasol ac addysg
- 9.7 cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd

10 gallu cadw cofnodion yn briodol

- 10.1 gallu cadw cofnodion cywir, cynhwysfawr a dealladwy yn unol â'r ddeddfwriaeth, protocolau a'r canllawiau perthnasol
- 10.2 cydnabod y dylid rheoli cofnodion a phob gwybodaeth arall yn unol â'r ddeddfwriaeth, protocolau a chanllawiau perthnasol

11 gallu ystyried ac adolygu ymarfer

- 11.1 deall gwerth ystyried ar ymarfer a bod angen cofnodi canlyniad yr ystyriaeth
- 11.2 cydnabod gwerth cynadleddau achos a dulliau eraill o adolygu

12 gallu sicrhau ansawdd eu hymarfer

- 12.1 gallu ymgymryd ag ymarfer ar sail tystiolaeth, gwerthuso ymarfer yn systematig a chymryd rhan mewn gweithdrefnau archwilio
- 12.2 gallu casglu gwybodaeth, gan gynnwys data ansoddol a meintiol, sy'n helpu gwerthuso ymatebion defnyddwyr gwasanaeth i'w gofal
- 12.3 ymwybodol o rôl archwilio ac adolygu mewn rheolaeth ansawdd gan gynnwys rheoli ansawdd, sicrwydd ansawdd a defnyddio mesurau canlyniadau'n briodol
- 12.4 gallu cynnal llwybr archwilio effeithiol a gweithio tuag at wella'n barhaus
- 12.5 ymwybodol o, ac yn gallu cymryd rhan mewn, rhaglenni sicrwydd ansawdd, ble bo'n briodol
- 12.6 gallu gwerthuso cynlluniau ymyrraeth gan ddefnyddio mesurau cydnabyddedig ynghylch canlyniadau ac adolygu'r cynlluniau yn ôl y gofyn ar y cyd â'r defnyddiwr gwasanaeth
- 12.7 cydnabod bod angen monitro a gwerthuso ansawdd ymarfer a hefyd werth cyfrannu at gynhyrchu data ar gyfer sicrwydd ansawdd a rhaglenni gwella.

13 deall cysyniadau allweddol seiliau'r wybodaeth sy'n berthnasol i'w proffesiwn

- 13.1 deall strwythur a phwrpas y corff dynol yn ogystal â bod â gwybodaeth o iechyd, afiechyd, nam a chamweithredu sy'n berthnasol i'w broffesiwn
- 13.2 bod yn ymwybodol o egwyddorion a defnyddiau ymholi gwyddonol gan gynnwys gwerthuso effeithiolrwydd triniaethau a'r broses ymchwil
- 13.3 cydnabod rôl proffesiynau eraill mewn addysg, iechyd a gofal cymdeithasol
- 13.4 deall strwythur a phwrpas y gwasanaethau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU
- 13.5 deall y cysyniad o arweinyddiaeth a sut mae'n cael ei weithredu mewn ymarfer
- 13.6 deall sail ddamcaniaethol asesu ac ymyrryd, a'r amrywiaeth o ddulliau o gyflawni hynny,
- 13.7 deall theori ac ymarfer addysgol a'r berthynas rhwng iaith a llenyddiaeth o ran therapi lleferydd ac iaith
- 13.8 deall ieitheg a ffoneteg, seicoieitheg, ieitheg gymdeithasol a phob lefel o brosesu nodweddiadol
- 13.9 deall y gwyddorau biofeddygol a meddygol yn ôl eu perthnasedd i ddatblygiad a chynnal cyfathrebu a llyncu
- 13.10 deall seicoleg yn ôl ei berthnasedd i ddatblygiad a newid gydol oes, cyfathrebu normal a diffygiol a lles seicolegol a chymdeithasol
- 13.11 deall seicoleg mewn perthynas ag ymarfer therapi lleferydd ac iaith, gan gynnwys ei gymhwyso i addysg, iechyd, a manau gwaith ac mewn cymdeithasau amlddiwylliannol.
- 13.12 deall cyd-destunau, modelau a phrosesau therapiwtig sy'n berthnasol i ymarfer therapi lleferydd ac iaith
- 13.13 deall namau, datblygiad ac o ran arfer, lleferydd, iaith, cyfathrebu a llyncu

14 gallu defnyddio gwybodaeth a sgiliau priodol ar gyfer ymarfer

- 14.1 gallu newid ymarfer yn ôl y gofyn i gyd-fynd â datblygiadau newydd neu newid yn y cyd-destun
- 14.2 gallu cynnal gweithdrefnau priodol ar gyfer diagnosis neu fonitro, therapi neu waith arall yn ddiogel ac yn effeithiol
- 14.3 gallu ffurfio cynlluniau rheoli penodol ac addas, gan gynnwys gosod terfynau amser
- 14.4 gallu casglu gwybodaeth briodol
- 14.5 gallu dewis a defnyddio technegau asesu priodol
- 14.6 gallu cynnal a chofnodi asesiad trylwyr, sensitif a manwl drwy ddefnyddio technegau ac offer priodol
- 14.7 gallu gweithredu, cofnodi, sgorio a dehongli amrywiaeth o offer asesu, wedi'u cyhoeddi ac wedi'u hunan-gynhyrchu, i ddisgrifio a dadansoddi gallu ac anghenion defnyddwyr gwasanaeth, ac, yn ôl y gofyn, drawsgrifiad ffonetig, dadansoddiad ieithyddol, dadansoddiad gydag offer ac asesiad seicoieithyddol
- 14.8 gallu cynnal neu drefnu ymchwiliadau yn ôl y gofyn
- 14.9 gallu dadansoddi a gwerthuso'n feirniadol yr wybodaeth a gasglwyd
- 14.10 gallu dangos agwedd resymegol a systematig at ddatrys problemau
- 14.11 gallu defnyddio ymchwil, rhesymu a sgiliau datrys problemau i benderfynu ar y ffordd briodol o weithredu
- 14.12 sylweddoli gwerth ymchwil mewn asesu ymarfer yn feirniadol
- 14.13 ymwybodol o amrywiaeth o fethodolegau ymchwil
- 14.14 gallu gwerthuso ymchwil a thystiolaeth arall ar gyfer ei ymarfer ei hunan

- 14.15 gallu defnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu priodol i'w hymarfer
- 14.16 gallu cymhwyso gwybodaeth o namau cyfathrebu, ieitheg, ffoneteg, seicoleg a'r gwyddorau biofeddygol i nodi, asesu a diagnosio'n wahaniaethol amrywiaeth o namau cyfathrebu a llyncu
- 14.17 deall addysg iechyd a sut y mae'n berthnasol i gyfathrebu a llyncu
- 14.18 gallu adnabod dylanwadau cyd-destunau sefyllfaol ar statws y gallu i gyfathrebu a llyncu
- 14.19 gallu gwerthuso effeithiau trafferthion cyfathrebu a llyncu ar les seicolegol defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr
- 14.20 fel sgil broffesiynol graidd ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith, gallu cyfathrebu yn Saesneg i safon cyfwerth â lefel 8 y System Ryngwladol Profi Iaith Saesneg heb unrhyw elfen o dan 7.5
- 14.21 gallu defnyddio gwybodaeth o therapi lleferydd ac iaith i asesu a gweithio gyda phobl gyda'r namau canlynol:
- namau lleferydd ac iaith a fagwyd
 - namau gwybyddol o ran datblygiad neu a fagwyd
 - namau datblygol lleferydd ac iaith
 - namau rhuglder
 - namau llyncu
 - namau lleisiol

15 deall yr angen i sefydlu a chynnal amgylchedd ymarfer ddiogel

- 15.1 deall yr angen i sicrhau diogelwch defnyddwyr gwasanaeth a'r rhai sydd â rhan yn eu gofal
- 15.2 bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, ac o unrhyw bolisi a gweithdrefnau diogelwch perthnasol yn y gweithle, megis adrodd ar ddigwyddiadau, a gallu gweithredu yn unol â'r rhain
- 15.3 gallu gweithio'n ddiogel, gan gynnwys gallu dewis technegau addas ar gyfer rheoli, lleihau neu ddiddymu peryglon a rheoli risg mewn ffordd ddiogel yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch
- 15.4 gallu dewis offer diogelwch personol a'i ddefnyddio'n gywir
- 15.5 gallu sefydlu manau diogel ar gyfer ymarfer, sydd â'r lleiaf posibl o risg i ddefnyddwyr gwasanaeth, y rhai sy'n eu trin ac eraill, gan gynnwys defnyddio rheoli peryglon ac yn enwedig rheoli haint

Nodiadau

ParkHouse

ffôn +44 (0)845 300 6184

184–186 Kennington Park Road

www.hcpc-uk.org

Llundain SE11 4BU

Mae'r ddogfen hon ar gael
mewn fformatau eraill ac yn
Saesneg ar gais.

Ffoniwch +44 (0)20 7840 9806
neu ebostiwch
publications@hcpc-uk.org

© Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal 2013

Cod cyhoeddi: 20131113mPOLPUB (argraffwyd Rhagfyr 2013)

Cynhyrwyd y cyhoeddiad hwn gan ddefnyddio coed o goedwagedd cynaliadwy.